# Dyfarniad Cymrodoriaeth Uwch 2025
# Adroddiad y Cadeirydd

## Cadeiryddion:

Cadeirydd: Yr Athro Deb Fitzsimmons, Athro Economeg Iechyd ac Ymchwil Canlyniadau, Prifysgol Abertawe, a Chyd-gyfarwyddwr, Economeg Iechyd a Gofal Cymru

Dirprwy Gadeirydd: Yr Athro Monica Busse, Ffisiotherapydd siartredig, Methodolegydd treialon yn y Ganolfan Ymchwil Treialon, Prifysgol Caerdydd a Chyfarwyddwr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Panel:

Zoe Hoare - Prif Ystadegydd a Chyfarwyddwr, Prifysgol Bangor

Victoria Shepherd - Uwch Gymrawd Ymchwil (Nyrs), Prifysgol Caerdydd

Richard Stanton - Athro Firoleg, Prifysgol Caerdydd

Gina Dolan - Deon Cyswllt – Ymchwil ac Arloesi, Prifysgol De Cymru

Claudia Metzler-Baddeley - Darllenydd a Chymrawd Ymchwil, Prifysgol Caerdydd

Reyer Zwiggelaar - Pennaeth Ysgol y Graddedigion, Prifysgol Aberystwyth

Ashley Akbari - Athro Data Poblogaeth ac Ymchwil Wyddoniaeth, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe

Fiona Wood - Athro Cymdeithaseg Feddygol, Prifysgol Caerdydd

Diane Seddon - Darllenydd mewn Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Bangor

Nathan Davies - Aelod o'r Cyhoedd

## Cyflwyniad

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw hyrwyddo, cefnogi a darparu goruchwyliaeth gyfunol o waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol uchaf, ei fod yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'i fod

yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru.

Nod y **Dyfarniad Cymrodoriaeth Uwch** yw cefnogi unigolion i ddod yn ymchwilwyr annibynnol trwy arwain ac ymgymryd ag ymchwil o ansawdd uchel.

Mae'r Gymrodoriaeth Uwch yn ddyfarniad hyfforddi unigol sy'n cynnig cyllid ar gyfer costau cyflog yr unigolyn am hyd at dair blynedd o gyllid amser llawn, neu bedair, pump neu chwe blynedd o gyllid rhan-amser, a chostau prosiect ymchwil priodol a rhaglen hyfforddi a datblygu.

Dyma nifer y ceisiadau a ddaeth i law, a'r dyfarniadau a wnaed ar gyfer cystadleuaeth 2025:

**Wedi ymgeisio:** 19
**Yn gymwys:** 19
**Dyfarnwyd:** 4

# Dyfarniadau Cymrodoriaeth Uwch

Lansiwyd y cynllun ar 17 Hydref 2024 a daeth i ben ar 15 Ionawr 2025.

## Sylwadau a chyngor i ddarpar ymgeiswyr

Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y panel wedi gwneud sylwadau ar gryfderau a gwendidau cyffredinol y ceisiadau cymwys ac wedi trafod meysydd y dylai darpar ymgeiswyr eu hystyried i gryfhau eu cais. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Uchelgais ymchwil
Mentoriaeth a chefnogaeth sefydliad lletyol
Cynnwys y cyhoedd a'r gyllideb
Methodoleg
Cynllun hyfforddi a datblygu
Cadarnhau mynediad at gyfleusterau a data
Seilwaith ac arbenigedd ymchwil yng Nghymru

### Uchelgais ymchwil

Roedd y panel yn falch o weld lefelau uchel o gymhelliant ac uchelgais i ddilyn gyrfaoedd ymchwil yn eu dewis maes, yng Nghymru. Nododd y panel fod llawer o

ymgeiswyr wedi dangos ymrwymiad i'w rolau proffesiynol (e.e. cais am ddyfarniadau rhan-amser).
Dangosodd ceisiadau cryfach ddealltwriaeth argyhoeddiadol wedi'i mynegi'n dda o'r ffyrdd y byddai eu cymrodoriaeth yn darparu ymchwil o ansawdd uchel, a fyddai o fudd i Gymru. Nid oedd ceisiadau gwannach yn rhoi digon o fanylion am berthnasedd ac effaith bosibl eu hymchwil.

Dylai ymgeiswyr sicrhau, wrth ddewis y llwybr cymrodoriaeth hwn, eu bod wedi ystyried mai dyma'r llwybr gorau iddynt ar y cam hwn o'u gyrfa i gyflawni eu huchelgeisiau. Hoffai'r panel weld bod yr ymgeisydd yn dangos perchnogaeth o'i ymchwil gymrodoriaeth gyda digon o newydd-deb/arloesedd. Dylai'r ymchwil ddangos cynnydd clir o'i ymchwil flaenorol e.e. PhD.

Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa nad grant prosiect yw hwn ac mae'n rhaid bod cysylltiad clir a chydlynol o ran y ffordd y mae eu prosiect ymchwil a'r lle y maent wedi'i ddewis i ymgymryd â'r gymrodoriaeth yn cysylltu â'u cynlluniau hyfforddi arfaethedig a datblygiad eu gyrfa.

## Mentoriaeth a chefnogaeth y sefydliad lletyol

Mae'r panel yn atgoffa ymgeiswyr o bwysigrwydd cyfiawnhau'r tîm mentoriaeth a'r sefydliad lletyol ar gyfer yr ymchwil a'r ffaith y bydd y panel yn craffu'n ofalus ar y datganiadau y mae'r mentoriaid a'r sefydliad lletyol yn eu darparu.

Er bod y panel yn cydnabod y bydd ymgeiswyr yn cyfiawnhau eu bod eisoes yn gweithio mewn amgylchedd ymchwil o'r ansawdd uchaf, rhaid i'r panel fod yn sicr y bydd y fentoriaeth ar waith yn cefnogi'r gymrodoriaeth e.e. yn rhoi hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer dulliau/defnydd newydd i ddatblygu rhwydweithiau cenedlaethol/rhyngwladol newydd. Roedd ceisiadau cryfach yn ystyried pwysigrwydd ehangder a dyfnder y gefnogaeth sydd ei hangen, wrth gyfiawnhau'r dewis o fentoriaid, a allai gynnwys mentoriaid ychwanegol y tu allan i Gymru/y DU. Gwelwyd mentoriaeth gref mewn datganiadau lle roedd y mentor yn dangos dealltwriaeth dda o uchelgeisiau'r ymgeisydd, gan fynegi budd yr ymgeisydd a'i ymchwil i'r sefydliad.

Methodd ceisiadau gwannach â rhoi sicrwydd digonol o lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ymgeiswyr i'w galluogi i gyflwyno cymrodoriaeth lwyddiannus a/neu nid oeddent yn rhoi digon o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r ymrwymiad i'r ymgeisydd yn cael ei ymestyn y tu hwnt i gynnal y prosiect ymchwil wrth ddatblygu ei annibyniaeth ymchwil.

## Cynnwys y cyhoedd a'r gyllideb

Mae ymgorffori elfen cynnwys y cyhoedd o'r ymchwil arfaethedig yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Er ein bod yn gweld mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnwys y cyhoedd, roedd y panel yn siomedig o weld cyllidebau cyfyngedig ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn nifer o geisiadau.

Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cymryd cynnwys y cyhoedd o ddifrif a'i fod yn disgwyl gweld cydnabyddiaeth ariannol am weithgareddau cynnwys y cyhoedd yn cael ei thalu ar y cyfraddau a argymhellir. Mae'n hanfodol dangos cynnwys y cyhoedd yn gynnar wrth ddatblygu eich cynnig ymchwil. Mae cynnwys y cyhoedd yn un o'r meini prawf asesu y mae'r panel yn ei ddefnyddio wrth adolygu pob cais ac mae aelodau cynnwys y cyhoedd yn eistedd ar y paneli cyfweld.

## Methodoleg

Mae angen ystyried y dull methodolegol yn ofalus iawn a dylai fod yn briodol ar gyfer yr ymchwil sy'n cael ei chyflawni. Mae'n hanfodol bod yr ymchwil arfaethedig yn cael ei chefnogi gan ddulliau ymchwil cadarn y gall yr ymgeisydd eu cyfiawnhau'n annibynnol. Hoffai'r panel weld ymgeiswyr yn cynnig dulliau methodolegol arloesol ar gyfer eu hymchwil. Os nad oes gan ymgeisydd yr arbenigedd gofynnol yn y dulliau ymchwil y mae'n eu cynnig yn y cais, bydd y panel yn disgwyl gweld hyfforddiant penodol fel rhan o'r rhaglen hyfforddi a datblygu, a chymorth perthnasol ar ffurf mentor neu gynghorydd addas wedi'i gyfiawnhau'n hanfodol i ddatblygiad yr ymgeisydd a'r camau nesaf tuag at ymchwil annibynnol.

## Pwysigrwydd y cynllun hyfforddi a datblygu

Disgwylir i ymgeiswyr fanteisio ar y gymrodoriaeth i ddatblygu ymhellach mewn meysydd a fydd yn cyfrannu at eu datblygiad fel ymchwilwyr a'u cynnydd tuag at y cam nesaf yn eu gyrfa ymchwil. Er bod yna welliant ers y llynedd, roedd gwendidau'n amlwg o hyd, yn enwedig o ran aliniad a diffyg manylion yn y cynllun hyfforddi a datblygu.

## Cadarnhau mynediad at gyfleusterau a data, os yn llwyddiannus

Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa bod dichonoldeb cynnal yr ymchwil arfaethedig yn ystyriaeth bwysig wrth liniaru risg. Dylai ymgeiswyr geisio llythyrau o gefnogaeth gan yr holl sefydliadau a nodir yn y cynnig ymchwil, gan fanylu ar eu hymrwymiad i gefnogi'r ymchwil, os caiff ei hariannu. Roedd y panel yn siomedig gan ddiffyg tystiolaeth ategol a lefel y manylder yn y llythyrau hyn, pan gawsant eu darparu. Mewn rhai ceisiadau a nododd y byddent yn cael mynediad at ddata arferol (fel SAIL), ni ddarparwyd digon o fanylion neu gostau. Codwyd pryderon tebyg

ynghylch rhai astudiaethau labordy o ran cyfiawnhau a manylu ar yr adnoddau oedd eu hangen arnynt. Mewn rhai achosion, roedd y panel yn siomedig bod diffyg eglurder ynghylch yr ymchwil i'w chynnal ar gyfer y gymrodoriaeth ac astudiaethau a threialon parhaus/sy'n gorgyffwrdd.

Rydym yn annog pob ymgeisydd i drafod yr ymchwil arfaethedig gyda sefydliadau cefnogi ac i ddarparu llythyr cefnogaeth ffurfiol a manwl wedi'i lofnodi gan bob sefydliad.

### Seilwaith ac arbenigedd ymchwil yng Nghymru

Dylid ystyried cyd-destun yr ymchwil arfaethedig o fewn y seilwaith ymchwil presennol yng Nghymru. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o grwpiau ymchwil a seilwaith presennol sy'n cyd-fynd â'u hymchwil a dylent fod yn gallu rhagweld lle y byddant yn gwneud cyfraniad, pe bai'r prosiect yn cael ei ariannu. Dylai ymgeiswyr ystyried y budd iddynt o fod yn gysylltiedig â Chyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a sut y byddant yn ymgysylltu â'r gymuned a'u cymheiriaid ac yn gweithredu fel cenhadon i'r Gyfadran ledled y DU a thu hwnt.

## Adnoddau defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr

Mae arweiniad ar gyfer y cynllun ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'r arweiniad hwn yn rhoi manylion am y meini prawf cymhwystra ac asesu a dylid ei ddarllen yn llawn cyn mynd ati i lunio cais.

Sylwch y bydd arweiniad wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi gyda lansiad pob galwad a rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyfeirio at yr arweiniad diweddaraf ar gyfer y cynllun.

Caiff deiliaid dyfarniadau presennol a blaenorol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eu rhestru ar y wefan a gall hyn fod yn adnodd defnyddiol.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar ein gwefan hefyd gan gynnwys gweminarau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar ddod a rhai sydd wedi'u recordio.

Cyfradran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales Faculty

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales